# Y Gyflogres a'r Cyflog Byw

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

28 Ebrill 2017

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 31 Mawrth, pan wnaethoch ofyn am wybodaeth am y canlynol:

> *Rwy'n ysgrifennu atoch chi o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i ofyn am y wybodaeth ganlynol:*
> 1) *Faint o bobl sydd ar eich cyflogres?*
> 2) *A oes gennych chi ymrwymiad i dalu'r Cyflog Byw gwirioneddol o £8.45 yr awr?*
> 3) *Os nad oes, faint o bobl sy'n cael eu talu:*
>    a) *Y Cyflog Byw gwirioneddol o £8.45 yr awr?*
>    b) *Yn llai na'r Cyflog Byw gwirioneddol o £8.45 yr awr?*
> 4) *Pan ydych yn contractio gwaith allan, a ydych yn datgan y dylid talu pobl y Cyflog Byw gwirioneddol o £8.45 yr awr er mwyn cael y contract?*

1) *Faint o bobl sydd ar eich cyflogres?*

   Ar 31 Mawrth 2017, 466 o weithwyr (445.92 FTE)

2) *A oes gennych chi ymrwymiad i dalu'r Cyflog Byw gwirioneddol o £8.45 yr awr?*

Rydym wedi bod yn Gyflogwr Cyflog Byw Achredededig ers mis Rhagfyr 2012

3) *Os nad oes, faint o bobl sy'n cael eu talu:*
   a) *Y Cyflog Byw gwirioneddol o £8.45 yr awr?*

   Amherthnasol

   b) *Yn llai na'r Cyflog Byw gwirioneddol o £8.45 yr awr?*

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: MynediadAtWybodaeth@Cynulliad.cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Amherthnasol

4) *Pan ydych yn contractio gwaith allan, a ydych yn datgan y dylid talu pobl y Cyflog Byw gwirioneddol o £8.45 yr awr er mwyn cael y contract?*

   Ydym. Pan mae cwmnïau yn darparu gwasanaethau ar ein hystad rydym yn datgan bod yn rhaid iddynt dalu'r cyflog byw i'w gweithwyr.

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn [www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx](www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx)
Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os credwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF